

Anecs 1 – Meini Prawf Gorfodi Diogelwch Bwyd

Nod: sicrhau bod camau gorfodi diogelwch bwyd yn briodol ac yn cadw at Bolisi Gorfodi Corfforaethol y Cyngor a bod y camau hynny yn seiliedig ar **gysondeb, tegwch, cymesuredd, tryloywder** a **gwrthrychedd**. Lle bo angen gweithredu, rhoddir ystyriaeth i egwyddorion gorfodi da a sefydlwyd yng Nghod y Rheoleiddiwr. Wrth benderfynu ar y math o gamau gorfodi i'w cymryd, dylai swyddog awdurdodedig roi sylw i natur yr achos o dorri rheolau a hanes cydymffurfedd gweithredydd y busnes bwyd neu asesiad o barodrwydd gweithredydd y busnes bwyd i gyflawni'r gwaith a nodir gan y swyddog.

Yn y cyd-destun gorfodi diogelwch bwyd arferol, gall camau yn erbyn Gweithredydd y Busnes Bwyd (FBO) symud o anffurfiol i ffurfiol ac mae'r tabl isod yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl gamau gorfodi sydd ar gael:

Anffurfiol »	« Ystyried yr hysbysiad »	» Angen Hysbysiad / FPN	Cau'n Wirfoddol	Atafaelu a Chadw	Gwaharddiad	Erlyniad / Rhybudd Syml
<ul style="list-style-type: none"> Achos o dorri rheolau y gellir eu datrys yn gyflym e.e. Glanhau (gweithgareddau dros dro) Rheolau a dorrwyd – bach o berygl i iechyd y cyhoedd Mae'r FBO yn cytuno i wneud gwaith o fewn y terfynau amser priodol (lle nad yw eiddo yn cydymffurfio ar y cyfan, rhaid cadarnhau'r gwaith drwy lythyr) Hanes blaenorol da o ymateb i geisiadau anffurfiol Cynnydd da gyda gwelliannau ac wedi eu darparu o fewn y terfynau amser a gytunwyd arnynt Safon dda o waith, gwelliannau parhaol i'r busnes 	<p><i>Symud o anffurfiol i ffurfiol yn dibynnu ar:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> hanes blaenorol yr FBO Graddfa'r busnes / nifer y defnyddwyr mewn perygl Difrifoldeb y methiant Goblygiadau peidio â gwella Ceisiadau neu gyngor blaenorol (ysgrifenedig, llafar neu arall) A oes Partneriaeth Awdurdod Sylfaenol ar waith. Bwyd anniogel ar y farchnad. 	<p>Hysbysiadau Cadw ac Atafaelu HEPN¹, EPN², HIN³, IN⁴, RAN⁵</p> <ul style="list-style-type: none"> FBO yn gwrthod cytuno i'r gwaith Yn cytuno ar y gwaith ond dim ymgais i weithredu o fewn yr amserlen ofynnol Wedi cytuno ar y gwaith ond y cynnydd yn araf neu wedi dod i ben neu wedi methu â chwrrd â'r amserlen a drafodwyd Busnes yn cael ei redeg i safon isel ac yn annhebyg o wella o ran ei hun Nid yw'r bwyd wedi ei gynhyrchu, prosesu na'i ddosbarthu'n unol â 'Rheoliadau Hylendid' Bwyd anniogel ar y farchnad <p>Hysbysiad Cosb Benodedig (FPN)</p> <ul style="list-style-type: none"> Methiant i arddangos sgôr hylendid bwyd na chydymffurfio â gofynion deunydd cyhoeddusrwydd 	<p>Cyflwr perygl i iechyd yn bodoli:</p> <ul style="list-style-type: none"> Perygl ar unwaith a Hyderus y bydd yr FBO yn parhau ar gau nes y cytunir i ailagor <p>⇒ Gall yna gytuno i gau'n wirfoddol (ond nid oes rhaid iddynt)</p>	<p>Bwyd anniogel wedi ei roi ar y farchnad nad yw'n bodloni gofynion diogelwch bwyd</p> <p>Yr FSA yn cyhoeddi Rhybudd Bwyd</p> <p>Camau gwirfoddol yn cael eu hystyried lle:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r perchennog yn cytuno gan gynnwys costau bydd bwyd yn cael ei ddinistrio ac nid oes perygl y bydd y bwyd yn cael ei adfer ac yn dychwelyd i'r gadwyn fwyd 	<p>Amod perygl i iechyd yn bodoli:</p> <ul style="list-style-type: none"> Hysbysiad (a Gorchymyn) Gwahardd Brys o ran Hylendid <p>Perygl ar unwaith o niwed i iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Hysbysiad Gwahardd Brys 	<p>Erlyniad</p> <ul style="list-style-type: none"> Troseddau difrifol sy'n peryglu'r cyhoedd neu unigolyn Bwriadol, di-hid, esgeulus neu gyson Anwybyddwyd rhybuddion blaenorol Ymosod neu atal Swyddog Methiant i dalu FPN <p>Rhybudd syml – fel rhagofal lle mae'r FBO yn cyfaddef trosedd ac yn cytuno i gael rhybudd</p>

¹HEPN - Hygiene Emergency Prohibition Notice, ²EPN – Emergency Prohibition Notice, ³HIN – Hygiene Improvement Notice, ⁴IN – Improvement Notice, ⁵RAN – Remedial Action Notice

Egwyddorion Arweiniol:

- Rhaid i'r cam fod yn seiliedig ar risg, yn rhesymol a chyson gydag arfer da
- Agwedd raddedig ac addysgol i gael ei defnyddio
- Camau ffurfiol lle nad yw'r camau anffurfiol yn cyflawni'r effaith a ddymunir